

newyddion Cymraeg ColegauCymru #180 20 Ebrill 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Ansawdd Colegau

Academi Bêl Droed Coleg Caerdydd a'r Fro yn sicrhau sêl bendith Cymdeithas Bêl Droed Cymru

Mae Academi Bêl Droed Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cael sêl bendith bwysig iawn gan y gymdeithas sy'n gyfrifol am reoli pêl droed yng Nghymru, Cymdeithas Bêl Droed Cymru, wedi derbyn statws Coleg Ffocws Cymdeithas Bêl Droed Cymru.

[Mwy>>>](#)

Busoddiadau Colegau

Atebion Creadigol Mewn Amser Caled: Cynhadledd Flynyddol ColegauCymru 2015

Mae ColegauCymru yn eich gwahodd i'w gynhadledd flynyddol ar 21 Mai yn Venue Cymru, Llandudno er mwyn cysidro atebion creadigol mewn amser caled.

Mae'r rhaglen gref o siaradwyr yn addo golwg ffres a datblygiadau strategol wedi eu cyflwyno gan:

- Fanshawe Community College, Canada
- Dau ddatblygiad diwydiannol mawr - Tidal Lagoon Power a Horizon Nuclear Power
- FSB Cymru
- Dirprwy Weinidog dros Dechnoleg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

Bydd hefyd cyfle i edrych ar atebion creadigol ac i drafod arfer dda yn ystod wyth gweithdy'r gynhadledd, pob un dan arweiniad cuwch gynrychiolwyr rhanddeiliaid a colegau Cymru a thu hwnt, gyda nifer o sesiynau astudiaethau achos yn cael eu cyflwyno gan fudiadau sydd wedi ennill gwobrau o fri.

[Cliciwch yma am y rhaglen lawn, manylion y gweithdai a'r ffurflen archebu](#)

Dysgwyr ddim yn colli allan wrth i'r Coleg ystyried mesurau i dorri costau

Mae Coleg y Cymoedd wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i'w ddysgwyr wrth ystyried strategaeth newydd ar gyfer gwneud toriadau difrifol i gyllid y sector.

Mae'r coleg wedi cytuno i ryddhau 41 aelod o staff llawn amser ar sail diswyddiad gwirfoddol wrth geisio ymdopi â'r toriadau enfawr i'r cyllid sy'n wynebu'r sector addysg bellach yng Nghymru ac arbed tua £1.3 miliwn y flwyddyn i'r coleg.

[Mwy>>>](#)

Y Dirprwy Weinidog ar gyfer Sgiliau a Thechnoleg yn dysgu am weithredu arloesol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

Daeth Julie James, y Dirprwy Weinidog ar gyfer Sgiliau a Thechnoleg, i Goleg Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar i weld sut mae CCAF yn datblygu cyfeiriad newydd er mwyn creu incwm.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae CCAF wedi sefydlu tîm Gwasanaethau Masnachol newydd sbon. Mae'n gweithio ar draws pedwar maes gweithgarwch allweddol er mwyn ehangu busnes y Coleg: Partneriaethau Cyflogwyr; Ymchwil, Cynllunio a Cheisiadau; Rhyngwladol ac Adwerthu.

[Mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

Myfyrwyr Theatr Dechnegol yn mynd i RADA

Mae dau fyfyrwr Theatr Dechnegol o Goleg Gŵyr Abertawe yn dathlu ar ôl cael eu derbyn gan Academi Frenhinol y Celfyddydau Dramatig.

[Mwy>>>](#)

Ysgoloriaeth gan Gray's Inn i'r Bar

Mae un o gyn-fyfyrwyr Mynediad Coleg Gŵyr Abertawe, Simon Hussellbee, wedi llwyddo yn erbyn cystadleuaeth gryf i sicrhau ysgoloriaeth gan y sefydliad o fri Gray's Inn Llundain, gan gynnig modd iddo gwblhau ei Gwrs Hyfforddi Proffesiynol y Bar.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr Grwp Llandrillo Menai yn ennill Ysgoloriaethau Prifysgol

Mae chwe pherson ifanc sy'n astudio ar gyfer eu Lefel A ar safleoedd Dolgellau, Glynllifon a Phwllheli Coleg Meirion-Dwyfor wedi ennill dros £10,000 mewn ysgoloriaethau prifysgol ar gyfer Medi 2015.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Staff a Myfyrwyr

Gwobr ddiigidol i Diwtor am Brosiect Robotiaid

Mae darlithydd Cyfrifiaduron o Grŵp Llandrillo Menai wedi ennill gwobr am drefnu digwyddiad 'Robot Wars' i ddisgyblion chweched dosbarth ysgolion lleol.

[Mwy>>>](#)

Myfyriwr peirianeg yn ennill gwobr gweithgynhyrchu

Mae myfyriwr Peirianeg Coleg Gŵyr Abertawe, Amadou Khan, wedi ennill gwobr yn ddiweddar yn nigwyddiad mawreddog Gwobrau Gweithgynhyrchu'r Dyfodol EEF yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Cipiodd Amadou y wobwr Efydd yn y categori Llwybr at Brentisiaeth – Myfyriwr y Flwyddyn.

[Mwy>>>](#)

Llun myfyrwraig yn cyrraedd rhestr fer Amnest

Mae disgybl o Sir Gaerfyrddin sy'n astudio yng Ngholeg Sir Gâr wedi cyrraedd rownd y tri olaf yng nghategori 'Ffotograffiaeth Ysgolion Uwchradd Uchaf ac Addysg Bellach' Gwobrau Ieuentid poblogaidd Amnest Rhyngwladol.

[Mwy>>>](#)

Ffocws ar Sgiliau

Gwobr Aur am weini

Mae myfyrwraig 18 oed o Lanelli wedi ennill rownd derfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru mewn Gwasanaeth Bwyty fel rhan o fenter a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i hybu lefelau sgiliau ar draws y wlad.

[Mwy>>>](#)

Llwyddiant trin gwallt

Mae Christopher Miller, myfyriwr 21 oed o Bontypridd, wedi ennill Cystadleuaeth Sgiliau Cymru mewn trin gwallt – lefel uwch, fel rhan o fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru i godi lefel sgiliau ar draws Cymru.

[Mwy>>>](#)

Sgiliau Adeiladwaith

Daeth myfyrwyr cyrsiau adeiladu o bob cwr o Ogledd Cymru ynghyd i gystadlu yn rowndiau rhanbarthol Sgiliau Cymru ym maes Adeiladu a gynhaliwyd ar gampws Coleg Menai yn Llangefni.

Roedd 76 o fyfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria, Glannau Dyfrdwy ac Iâl yn cymryd rhan yn y rowndiau rhanbarthol oedd yn cynnwys cystadlaethau Gwaith Bric, Plastro, Gwaith Saer Coed ar safle adeiladu a Gwaith Asiedydd ar Fainc, Paentio ac Addurno, a Gwaith Trydanol.

Bydd y deuddeg person sydd â'r sgoriau uchaf yn rowndiau rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru yn mynd ymlaen i

gystadlu yn Rownd Derfynol Ranbarthol Sgiliau Cymru a gynhelir yng Ngholeg Cambria ddiwedd y mis.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Gyrfa Cymru a Choleg Menai yn Paratoi ar gyfer Hyfforddiant, Sgiliau a Gwaith ym Môn
Yr wythnos hon lansiodd Coleg Menai a Gyrfa Cymru CodiSTEM sef digwyddiad uchelgeisiol i roi gwybodaeth am yrfaedd a chyfleoedd hyfforddi sydd i'w gynnal yng Nghanolfan Ynni'r coleg ar gampws Llangefni ar 29/4/15.

<https://www.gllm.ac.uk/news/careers-wales-and-coleg-menai-are-gearing-up-for-training-skills-and-work-on-anglesey/?LangType=1106>

Coleg yn dathlu 60 mlynedd o hanes y campws

Bu staff a myfyrwyr yng Ngholeg Sir Gâr yn dathlu pen-blwydd campws Rhydaman y coleg yn 60 oed pan fu prifathro presennol y coleg Barry Liles yn edrych nôl dros hanes y campws a'r adeg pan fu'n astudio yno fel prentis.

[Mwy>>>](#)
